DEAF WORKS EVERYWHERE

PECYN CYMORTH GWYBODAETH GYRFAOEDD I WEITHWYR PROFFESIYNOL CYMORTH SYNHWYRAIDD

ADNODDAU

National Deaf Children's Society CYMRU

THE CAREERS & ENTERPRISE COMPANY

CONTENTS

Edrychwch am yr eicon hwn ar y tudalennu gweithgareddau a fydd yn dangos i chi ba adnoddau bydd angen arnoch chi.

Adnodd 0.1: Jariau losin
Adnodd 1.1: Cardiau rhifau
Adnodd 1.2: Enwau Swyddi
Adnodd 1.3: Bingo pobl
Adnodd 2.1: Wynebau yn gwenu
Adnodd 3.1: Cwis chwalu mythau
Adnodd 3.2: Atebion chwalu mythau
Adnodd 4.1: Cardiau cryfderau a diddordebau
Adnodd 4.2: Cardiau personoliaeth
Adnodd 4.3: Amdanaf i
Adnodd 4.4: Proffiliau diwydiannau
Adnodd 4.5: Bocs clebran
Adnodd 5.1: Cylchoedd
Adnodd 6.1: Darluniau ôl-16
Adnodd 6.2: Olion traed ôl-16
Adnodd 6.3: Cwis gyrfaoedd
Adnodd 7.1: Cardiau cymorth cyfathrebu
Adnodd 7.2: Cwis technoleg
Adnodd 7.3: Atebion technoleg
Adnodd 7.4: Cardiau gwir ac anwir
Adnodd 7.5: Sefyllfaoedd cymorth a chyllid
Adnodd 8.1: Cynllun gweithredu gyrfaoedd

ADNODD 0.1:
JARIAU LOSIN

RHYWFAINT YN GYFYNGEDIG
BYDD RHAI SWYDDI
YN ADDAS I MI

SYCHYDIG YN GYFYNGEDIG
BYDD Y MWYAFRIF O SWYDDI
YN ADDAS I MI

DIM YN GYFYNGEDIG O GWBL
BYDD POB SWYDD
YN ADDAS I MI

ADNODD 1.1
CARDIAU RHIFAU

Argraffwch y cardiau hyn a thorrwch ar hyd y llinellau dotiog i chwarae'r gêm rhifau 1 i 20. A oes gennych chi lamineiddwyr? Beth am eu laminadu fel y gallwch chi eu defnyddio dro ar ôl tro!

1

2

3

4

5

6

7

8

9

10

11

12

13

14

15

16

17

18

19

20

ADNODD 1.2
ENWAU SWYDDI

Defnyddiwch y rhestr hon i annog eich grŵp pan mae eu syniadau am enwau swyddi yn dod i ben yn ystod y gweithgaredd i dorri'r garw. Mae croeso i chi ychwanegu mwy wrth i chi fynd ymlaen!

A
- Achubwr Bywyd
- Actor
- Anturiwr
- Archeolegydd
- Arolygydd Ansawdd
- Artist Coluro
- Athro
- Athro Celf
- Athro Cerddoriaeth
- Athro Ysgol Feithrin

B
- Barista
- Barnwr
- Bydwraig

C
- Cerddwr Cŵn
- Clustogwr
- Cogydd
- Criw Caban
- Cyflwynydd Radio
- Cyfreithiwr
- Cyfrifydd
- Cynllunydd Gemau Fideo
- Cynllunydd Trefol

Ch
- Chwaraewr Gemau

D
- Daearegydd
- Darlithydd Prifysgol
- Darlunydd
- Dawnsiwr
- Dehonglydd
- Derbynnydd
- Deintydd
- Diddanwr
- Dylunydd Ceginau
- Dylunydd Fasiwn
- Dylunydd Gemwaith
- Dylunydd Graffig
- Dylunydd Mewnol

E
- Economydd
- Entrepreneur

F
- Ffermwr
- Fferyllydd
- Ffotograffydd

G
- Garddwr
- Gweinydd
- Gweithiwr Cegin
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Gwerthwr Blodau
- Gwirfoddolwr
- Gwleidydd
- Gyrrwr Bws
- Gyrrwr Fan
- Gyrrwr Tacsi
- Gyrrwr Trên

H
- Hyfforddwr Caiac

J
- Joci

M
- Maethegydd
- Milfeddyg
- Milwr
- Model

N
- Nani

O
- Osteopath
- Optegydd

P
- Peiriannydd Cyfrifiadurol
- Peiriannydd Diwydiannol

R
- Rheolwr Swyddfa

S
- Swyddog yr Heddlu

T
- Trydanydd

Y
- Ymchwilydd
- Ysgrifennwr Cwisiau

ADNODD 1.3
DALEN BINGO POBL

Mae croeso i chi newid y blychau.

RYDW I'N GWISGO SBECTOL	CEFAIS FY NGENI'N FYDDAR	RYDW I'N CERDDED I'R YSGOL
MAE GEN I FRAWD	MAE GEN I ANIFAIL ANWES	RYDW I'N GWISGO UN NEU DDAU DECLYN CLYW
RYDW I'N CEFNOGI TÎM PÊL-DROED	MAE GEN I CHWAER	RYDW I WEDI BOD I FFRAINC
RYDW I'N GWISGO UN NEU DDAU FEWNBLANIAD YN Y COCHLEAR	RYDW I'N CYMRYD RHAN MEWN CHWARAEON YN FY AMSER HAMDDEN	MAE GEN I LYGAID GLAS

ADNODD 2.1
WYNEBAU SY'N GWENU

Defnyddiwch y wynebau hyn i gynrychioli'r pethau cadarnhaol a'r heriau o fod yn fyddar ar gyfer y gweithgaredd yng nghynllun gwers 2.



ADNODD 3.1
CWIS CHWALU MYTHAU

A ydy'r datganiadau canlynol yn fythau neu ffeithiau?		Gwir	or Anwir?!
1	Unwaith fy mod i'n gadael ysgol, byddaf i ddim yn derbyn mwy o gymorth gyda fy myddardod.	☐	☐
2	Byddaf i ddim yn gallu mynd i'r brifysgol oherwydd byddaf i'n cael trafferth i glywed yr athro yn mewn darlithoedd.	☐	☐
3	Byddaf i ddim yn gallu gwneud yr un swyddi â fy ffrindiau sy'n clywed oherwydd fy mod i'n fyddar.	☐	☐
4	Os ydw i'n cael cyfweliad swydd dylwn i ddweud wrth y cyflogwr fy mod i'n fyddar cyn y cyfweliad.	☐	☐
5	Byddaf i ddim yn gallu cael swydd mewn swyddfa oherwydd bydd yn rhy anodd i mi gymryd rhan mewn trafodaethau mewn cyfarfodydd.	☐	☐
6	Pan rydw i mewn swydd ac rydw i am ddefnyddio Mynediad at Waith, bydd fy nghyflogwr yn trefnu hyn i mi.	☐	☐
7	Os ydy fy nghyflogwr wedi talu am addasiadau rhesymol gallan nhw roi llai o gyflog i mi.	☐	☐
8	Gall pobl fyddar hedfan awyrennau.	☐	☐
9	Gall rhai pobl fyddar gael swydd yn y Fyddin neu fel Swyddog yr Heddlu.	☐	☐
10	Nid yw'n bosib i rai pobl fyddar weithio ar longau mordwyol, er enghraifft llongau mordaith.	☐	☐

ADNODD 3.2
ATEBION CHWALU MYTHAU

1 **Unwaith fy mod i'n gadael ysgol, byddaf i ddim yn derbyn mwy o gymorth gyda fy myddardod.**

ANWIR!

Yn ôl y gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010 neu Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yng Ngogledd Iwerddon) mae'n rhaid i golegau, prifysgolion a darparwyr prentisiaethau wneud gymaint â phosib i wneud newidiadau i'r ffordd y maen nhw'n dysgu ac yn rhoi cymorth ar waith i bobl ag anableddau.

Yn Lloegr a Chymru mae gan rhai pobl ifanc byddar gynlluniau (cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal yn Lloegr neu Gynlluniau Datblygu Unigol yng Nghymru) sy'n golygu bod ganddyn nhw'r hawl i'r cymorth sydd wedi'i gynnwys yn eu cynllun. Gall myfyrwyr mewn addysg uwch wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl i dalu am bethau fel cymhorthion radio, dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu gymerwyr nodiadau electronig.

2 **Byddaf i ddim yn gallu mynd i'r brifysgol oherwydd byddaf i'n cael trafferth i glywed yr athro yn mewn darlithoedd.**

ANWIR!

Mae llawer o bobl fyddar yn mynd i'r brifysgol ac mae yna lot o gymorth ar gael i'ch helpu chi yn eich darlithoedd neu gydag agweddau eraill o fywyd yn y brifysgol. Gallwch wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) a all helpu i dalu am y cymorth sydd angen arnoch chi.

Cofiwch gall y broses ymgeisio gymryd amser hir felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud eich cais yn gynnar Mae mwy o wybodaeth am DSA ar wefan UCAS: **www.ucas.com**. Hefyd cysylltwch â Chynghorydd Anabledd yn y brifysgol rydych chi wedi ei dewis!

3 **Byddaf i ddim yn gallu gwneud yr un swyddi â fy ffrindiau sy'n clywed oherwydd fy mod i'n fyddar.**

ANWIR!

Peidiwch â gadael i'ch byddardod dal chi yn ôl wrth i chi ddewis gyrfa. Gyda'r cymorth cywir ar waith gall pobl fyddar wneud lot o swyddi!

4 **Os ydw i'n cael cyfweliad swydd dylwn i ddweud wrth y cyflogwr fy mod i'n fyddar cyn y cyfweliad.**

GWIR!

Dylech chi byth boeni am ddweud wrth gyflogwyr eich bod chi'n fyddar. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Gogledd Iwerddon yn unig) yn sicrhau bod cyflogwyr ddim yn gallu gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anabledd. Felly peidiwch â phoeni bod y cyflogwr am ganslo'r cyfweliad neu byddan nhw ddim yn cynnig y swydd i chi oherwydd eich bod chi'n fyddar.

Os ydych chi'n dweud yn eich cais am swydd neu cyn y cyfweliad wedyn gall y cyflogwr sicrhau bod y cymorth cywir ar gael yn ystod y cyfweliad, er enghraifft dehonglwr BSL/Iaith Arwyddion Iwerddon (ISL), palanteipydd neu ystafell gydag acwsteg dda. Os ydych ch'n cael y cymorth cywir yn y cyfweliad, rydych chi'n fwy tebygol o wneud yn dda yn y cyfweliad ac â gwell siawns o gael y swydd! Felly, mae hyn yn bwysig iawn. Ond, mae dal i fod yn eich dewis personol chi os ydych chi'n dweud wrth y cyflogwr yn y cyfweliad.

5 **Byddaf i ddim yn gallu cael swydd mewn swyddfa oherwydd bydd yn rhy anodd i mi gymryd rhan mewn trafodaethau mewn cyfarfodydd.**

ANWIR!

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi addasiadau rhesymol ar waith i'ch cefnogi chi mewn cyfarfodydd e.e. sicrhau bod cyd-weithwyr yn gwybod i siarad un ar y tro mewn cyfarfodydd, trefnu cyfarfodydd fel bod digon o amser gennych chi i drefnu cymorth cyfathrebu ayb.

Gallwch chi hefyd wneud cais am gynllun Mynediad at Waith (AtW) a defnyddio'r cyllid i dalu am y cymorth cyfathrebu neu dechnoleg sydd angen arnoch chi i gyfathrebu. Er enghraifft gallwch chi ddefnyddio'r arian i dalu am ddehonglwr BSL neu balanteipydd i'ch cefnogi chi mewn cyfarfod. Bydd rhaid i chi wneud y cais i AtW eich hunan ond dylai'ch cyflogwr cefnogi chi yn gyfan gwbl gyda hyn.

6 **Pan rydw i mewn swydd ac rydw i am ddefnyddio Mynediad at Waith (AtW), bydd fy nghyflogwr yn trefnu hyn i mi.**

ANWIR!

Dylai'ch cyflogwr eich cefnogi chi gyda'ch cais AtW a darparu unrhyw ddogfennau a fydd angen arnoch chi ond yr unig berson sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod chi'n derbyn cyllid gan AtW yw chi!

Nid yw'n hawdd bob tro i gael y cyfanswm llawn o gefnogaeth – mae'n helpu os ydych chi wedi paratoi'n dda ar gyfer y broses ymgeisio ac i baratoi rhesymau da dros ofyn am gyllid gan AtW a sut bydd yn eich cefnogi chi yn y gweithle.

7 **Os ydy fy nghyflogwr wedi talu am addasiadau rhesymol gallan nhw roi llai o gyflog i mi.**

ANWIR!

O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Gogledd Iwerddon yn unig) mae'n rhaid i'ch cyflogwr dalu am addasiadau rhesymol yn y gweithle. Gallan nhw byth gofyn i chi i dalu neu gynnig cyflog is i chi.

Mae enghreifftiau o addasiadau rhesymol a fydd eich cyflogwyr yn gorfod talu amdanyn nhw yn cynnwys: larwm tân gweledol yn y gwaith, mwyhadur ffôn neu pensetiau addas, ffôn clyfar wedi'i darparu gan eich cyflogwr, hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i gydweithwyr ayb.

8 **Gall pobl fyddar hedfan awyrennau.**

GWIR!

Nawr gall bobl fyddar ddysgu sut i hedfan awyren. Ond byddai trwydded i fod yn beilot awyrennau masnachol ddim yn cael ei rhoi i unrhyw un sydd ddim yn gallu clywed negeseuon gan swyddogion rheoli traffig awyr. Edrychwch ar y wefan hon os hoffech chi ddysgu mwy am hyn: **www.deafpilots.co.uk**

9 **Gall rhai pobl fyddar gael swydd yn y Fyddin neu fel Swyddog yr Heddlu.**

GWIR!

Mae'n rhaid cael archwiliad meddygol ar gyfer pob swydd ac mae'n rhaid bod rhywfaint o glyw gennych chi. Efallai bydd rhywun sydd â byddardod unochrol neu fân yn pasio hyn ac mae pob achos yn cael eu hasesu ar sail unigol.

10 **Nid yw'n bosib i rai pobl fyddar weithio ar longau mordwyol, er enghraifft llongau mordaith.**

GWIR!

Dydy rhai pobl fyddar ddim yn gallu gweithio ar longau mordwyol, mae hyn yn cynnwys gweithio ar longau mordaith. Mae hyn oherwydd mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithio ar long gael tystysgrif feddygol mordwywr. Fel rhan o'r hyn mae yna brawf gallu clyw gyda'r disgwyliad byddwch chi'n gallu clywed lleferydd dros system radio neu uwch-seinydd.

ADNODD 4.1
CARDIAU CRYFDERAU A DIDDORDEBAU

TECHNOLEG A CHYFRIFIADURON	ANIFEILIAID
NATUR	GWLEIDYDDIAETH
PLANT	CELFYDDYDAU
FFITRWYDD AC IECHYD	CERBYDAU A GYRRU

BWYD	CERDDORIAETH
BOD YN GYMDEITHASOL	ARWAIN
GWEITHIO GYDAG ARIAN	PEIRIANNAU
LLEOEDD TAWEL	GWEITHGAREDDAU YMARFEROL

ADNODD 4.2
CARDIAU PERSONOLIAETH

GWEITHIO AR BEN FY HUNAN	CYNLLUNIO
HELPU ERAILL	DEFNYDDIO GEIRIAU
DEFNYDDIO GWYDDONIAETH	DEFNYDDIO RHIFAU
DARGANFOD	CYFLWYNO

YMDOPI GYDA NEWID	GWEITHIO'N DDA GYDAG ERAILL
GORFFEN PETHAU	GWNEUD PETHAU AR AMSER
ONEST	YN CADW'CH PEN
YN GWNEUD PETHAU HEB GAEL EICH GOFYN I'W WNEUD	CWRTAIS

BRWDFRYDIG	AMYNEDDGAR
DEFNYDDIOL	TREFNUS
CREADIGOL	CYFRIFOL
CYFEILLGAR	YN YMDRECHU

ADNODD 4.3
AMDANAF I

FY NIDDORDEBAU:

Rhywbeth sydd o ddiddordeb i mi yn barod:

Rhywbeth arall sydd o ddiddordeb i mi yn barod:

Rhywbeth hoffwn i ddatblygu diddordeb ynddo:

FY NGHRYFDERAU:

Cryfder sydd gen i nawr:

Cryfder arall sydd gen i nawr:

Rhywbeth hoffwn i ei wneud yn well yn y dyfodol:

FY MHERSONOLIAETH:

Rhywbeth sy'n fy nisgrifio i nawr:

Rhywbeth arall sy'n fy nisgrifio i nawr:

Rhywbeth hoffwn i wella yn y dyfodol:

ADNODD 4.4
PROFFILIAU DIWYDIANNAU

RHEOLAETH

- Trefnu'n dda
- Sgiliau pobl
- Adeiladu tîm
- Cynllunio
- Datrys problemau
- Yn gallu ysgogi pobl
- Gwneud penderfyniadau
- Dibynadwy

- **Rheolwr Prosiect**
- **Rheolwr Tîm**
- **Cyfarwyddydd**

TECHNOLEG

- Cyfrifiaduron
- Creadigol
- Yn rhoi sylw i fanylion
- Datrys problemau
- Rhesymegol
- Trefnus

- **Swyddog TG**
- **Datblygwr Meddalwedd**
- **Gweinyddydd Cronfa Ddata**
- **Datblygwr Gwefannau**

PROFFESIYNAU GOFAL

- Sgiliau pobl
- Ymroddedig
- Gofalgar
- Iechyd
- Hyblyg
- Sgiliau cyfathrebu
- Brwdfrydig

- **Nyrs**
- **Bydwraig**
- **Gweithiwr Cymorth Ieuenctid**
- **Seicolegydd**

DYLUNYDD

- Hyblyg
- Creadigol
- Llawn dychymyg
- Datrys problemau
- Gwaith tîm
- Yn meddwl am fanylion

- **Dylunydd Graffig**
- **Darluniwr**
- **Dylunydd Gwefannau**
- **Ffotograffydd**
- **Dylunydd Mewnol**

PEIRIANNEG

- TGCh – gweithio gyda meddalwedd
- Cyfrifiaduron
- Sgiliau cyfathrebu
- Datrys problemau
- Yn rhoi sylw i fanylion
- Trefnus
- Yn gorffen pethau

- **Pensaer**
- **Peiriannydd Diwydiannol**
- **Rheolwr Prosiect**
- **Peiriannydd Trydanol**

CYLLID

- Manylion
- Gweithio dan bwysau
- Gweithio gydag arian
- Sgiliau cyfathrebu
- Brwdfrydig
- Trefnus

- **Cyfrifydd**
- **Rheolwr Busnes**
- **Swyddog Cyfrifon**
- **Cynllunydd Ariannol**

ADNODD 4.5
BOCS CLEBRAN



Cyfarwyddiadau i greu eich bocs clebran:

1. Torrwch allan y sgwâr du.
2. Plygwch i sgwâr yn hanner ar ei hyd ac unwaith eto ar draws y canol.
3. Agorwch y sgwâr a'i droi drosodd fel bod yr ysgrifen yn wynebu i lawr. Plygwch y pedair cornel i mewn i'r canol.
4. Trowch y sgwâr drosodd unwaith eto a phlygwch y pedair cornel newydd i mewn i'r canol.
5. Plygwch yn hanner fel bod y cwestiynau yn wynebu i mewn.
6. Rhowch eich bysedd yn y pocedi ac rydych chi'n barod i fynd!

Cyfarwyddiadau i ddefnyddio'ch blwch clebran:

1. Gweithiwch mewn parau.
2. Y person sy'n dal y blwch clebran i ofyn i'r person arall i ddewis rhif rhwng 1 a 10.
3. Agorwch a chaewch y bocs clebran yr un nifer o weithiau â'r ateb uchod.
4. Ar ran y bocs clebran sy'n ar agor gofynnwch iddyn nhw pa rif dewison nhw.
5. Codwch y rhif hynny i weld y cwestiwn.
6. Trafodwch y cwestiwn mewn parau.

ADNODD 5.1
CYLCHOEDD



ADNODD 6.1
DARLUNIAU ÔL-16

CHWECHED DOSBARTH
(AROS YN YR YSGOL)

Noder dydy'r cardiau ddim i gyd yn addas i bob gwlad. Bydd y cyflwyniad PowerPoint yn dangos i chi ba rai i'w cynnwys ar gyfer eich gwlad benodol chi.

COLEG

PRENTISIAETHAU, HYFFORDDEIAETHAU AC INTERNIAETHAU

PRIFYSGOL

CYFLOGAETH

PROFIAD GWAITH

GWIRFODDOLI

ADNODD 6.2
OLION TRAED ÔL-16

ADNODD 6.3
CWIS GYRFAOEDD

PA UN SYDD DDIM YN ADDASIAD RHESYMOL?	• Cael dehonglwr os oes angen un arnoch chi • Cael eich talu mwy na'ch cyd-weithwyr am wneud yr un swydd • Is-deitlau mewn cyflwyniadau, fideos neu areithiau • Cael cymorth radio
ERBYN PRYD MAE'N RHAID I CHI DDECHRAU'R BRIFYSGOL (ATEBWCH GYDAG OEDRAN)?	• 18 – 21 • 21 – 30 • 30 – 50 • Unrhyw oedran
PWY SY'N GWNEUD CAIS AM FYNEDIAD AT WAITH?	• Eich cyflogwr • Eich rhieni • Chi • Eich rheolwr

YM 1914 BETH OEDD Y BRENTISIAETH FWYAF POBLOGAIDD?	• Coginio • Peirianneg • Gwaith gydag anifeiliaid • Gwnïadyddiaeth
YN 2014 BETH OEDD Y BRENTISIAETH FWYAF BOBLOGAIDD?	• Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Peirianneg • Gwaith gydag anifeiliaid • Trin gwallt
PA SGIL SY'N BWYSICAF I GYFLOGWYR?	• Cyfathrebu • Gwaith tîm • Rheoli amser • Datrys problemau • Pob un ohonyn nhw! (Sori tric oedd y cwestiwn yna!)

ADNODD 6.3
ATEBION CWIS GYRFAOEDD

PA UN SYDD DDIM YN ADDASIAD RHESYMOL?	• Cael dehonglwr os oes angen un arnoch chi • **Cael eich talu mwy na'ch cyd-weithwyr am wneud yr un swydd** • Is-deitlau mewn cyflwyniadau, fideos neu areithiau • Cael cymorth radio
ERBYN PRYD MAE'N RHAID I CHI DDECHRAU'R BRIFYSGOL (ATEBWCH GYDAG OEDRAN)?	• 18 – 21 • 21 – 30 • 30 – 50 • **Unrhyw oedran**
PWY SY'N GWNEUD CAIS AM FYNEDIAD AT WAITH?	• Eich cyflogwr • Eich rhieni • **Chi** • Eich rheolwr

YM 1914 BETH OEDD Y BRENTISIAETH FWYAF POBLOGAIDD?	• Coginio • Peirianneg • Gwaith gydag anifeiliaid • **Gwnïadyddiaeth**
YN 2014 BETH OEDD Y BRENTISIAETH FWYAF BOBLOGAIDD?	• **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** • Peirianneg • Gwaith gydag anifeiliaid • Trin gwallt
PA SGIL SY'N BWYSICAF I GYFLOGWYR?	• Cyfathrebu • Gwaith tîm • Rheoli amser • Datrys problemau • **Pob un ohonyn nhw! (Sori tric oedd y cwestiwn yna!)**

ADNODD 7.1
CARDIAU CYMORTH CYFATHREBU

AMSER YCHWANEGOL – 25%	ATHRO PLANT BYDDAR
COFNODWR LLEFERYDD-I -DESTUN	MWYADUR FFÔN
IS-DEITLAU	HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH O FYDDARDOD

GWEFUS-SIARADWR	AGENDA NEU DRAWSGRIFIAD
DEHONGLWR IAITH ARWYDDION PRYDAIN	GWEITHIWR CYMORTH CYFATHREBU
CYMERWR NODIADAU (YSGRIFENEDIG NEU ELECTRONIG)	CYMORTH RADIO

VOL
TONE
Sarabec
PLUS

as well as fingerspell in French.

and
Technology

Calvin Klein Jeans

PHONAK
SubNet
Network
Connect
roger

ADNODD 7.2
CWIS TECHNOLEG

A ydych chi'n meddwl bod y ffeithiau canlynol yn wir neu'n anwir?		Gwir or	Anwir?!
1	Dydw i ddim yn gallu bod yn feddyg neu nyrs oherwydd dydw i ddim yn gallu clywed curiadau calonnau pobl gyda stethosgop.	☐	☐
2	Gall person byddar fod yn swyddog yr heddlu trwy ddefnyddio radio wedi'i addasu ar gyfer cyfathrebu radio.	☐	☐
3	Mae cymhorthion radio yn eich helpu chi i glywed fel pobl sy'n clywed.	☐	☐
4	Dydw i ddim yn gallu clywed yn dda mewn grwpiau o bobl felly dydw i ddim yn gallu bod yn athro.	☐	☐
5	Gall person byddar weithio ar safle adeiladu oherwydd gallan nhw gael eu rhybuddio am dân gyda dyfais wedi'i haddasu.	☐	☐

ADNODD 7.3
ATEBION TECHNOLEG

1 **Dydw i ddim yn gallu bod yn feddyg neu nyrs oherwydd dydw i ddim yn gallu clywed curiadau calonnau pobl gyda stethosgop.**

ANWIR!

Mae yna stethosgopau electronig arbennig sy'n gwneud sŵn curiad calon lot yn uwch, a gallwch chi hyd yn oed ei ddefnyddio gyda chlustffonau mawr neu ddyfais ffrydio. Mae yna hefyd stethosgopau addasedig sy'n galluogi i bobl fyddar fod yn fydwragedd a gwrando ar guriadau calon babanod.

2 **Gall person byddar fod yn swyddog yr heddlu trwy ddefnyddio radio wedi'i addasu ar gyfer cyfathrebu radio.**

GWIR!

Mae yna addaswyr i radios sy'n eich galluogi chi i gysylltu clustffonau neu ddyfeisiau ffrydio arbennig. Hefyd mae cyfathrebu radio yn aml yn dilyn cynllun cam-wrth-gam (er enghraifft, yn gyntaf rydych chi'n dweud eich lleoliad, wedyn beth yw'r sefyllfa, wedyn os oes angen sylw meddygol ayb) a geiriau cod arbennig – a dydych chi ddim yn gallu defnyddio radio heddlu i sgwrsio. Felly, yn dibynnu ar lefel eu byddardod, gall rhai pobl fyddar ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud.

3 **Mae cymhorthion radio yn eich helpu chi i glywed fel pobl sy'n clywed.**

ANWIR!

Dydy cymhorthion radio ddim yn 'dod â'ch clyw yn ôl' ond gallan nhw eich helpu chi i glywed yn well mewn ambell sefyllfa, er enghraifft cyfarfodydd gwaith. Nawr mae yna gymorth radio ar gael (y Phonak Roger Select) sy'n eich galluogi chi i ddewis o ba ochr rydych chi am glywed synau, neu beidio – a gallwch chi hyn yn oed newid y gosodiadau pan mae pobl yn symud i ochr arall y bwrdd. Defnyddiol iawn mewn cyfarfodydd!

4 **Dydw i ddim yn gallu clywed yn dda mewn grwpiau o bobl felly dydw i ddim yn gallu bod yn athro.**

ANWIR!

A ydy'ch athro chi yn defnyddio cymorth radio yn y dosbarth er mwyn gallu eich clywed chi? Wel, gallwch chi wneud yn union yr un peth os ydych chi'n athro eich hunan, ond byddwch chi'n rhannu'r radio o gwmpas yr ystafell pan mae'r myfyrwyr yn siarad. Efallai bydd rhaid i chi eu hatgoffa nhw i siarad un ar y tro ac i beidio â siarad nes iddyn nhw gael y cymorth radio, ond dyna ni!

5 **Gall person byddar weithio ar safle adeiladu oherwydd gallan nhw gael eu rhybuddio am dân gyda dyfais wedi'i haddasu.**

GWIR!

Os cewch chi gynnig swydd ar safle adeiladu gallwch chi ofyn am ddyfais sy'n dirgrynu a fydd yn tynnu eich sylw at larwm tân. Os nad oes technoleg ar gael, gall cyflogwr roi addasiadau eraill ar waith fel system cyfaill gyda chyd-weithiwr sy'n clywed, i'ch rhybuddio.

ADNODD 7.4
CARDIAU GWIR AC ANWIR

GWIR

ANWIR

ADNODD 7.5
SEFYLLFAOEDD CYMORTH A CHYLLID

SEFYLLFAOEDD PRENTISIAETH

Sefyllfa 1

Mae eich hyfforddwr prentisiaeth yn dangos tasg i bawb. Pan mae'n siarad mae'n edrych i ffwrdd ac felly dydych chi ddim yn gallu clywed pob peth mae'n ei ddweud. Mae'r bobl eraill yn y grŵp yn gofyn cwestiynau i'r hyfforddwr ond dydych chi ddim wedi clywed popeth maen nhw, a'r hyfforddwr, wedi ei ddweud. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 2

Mae'r hyfforddwr yn gofyn i chi ddangos y dasg mae e newydd ei wneud. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 3

Rydych chi'n gweithio mewn swyddfa fel rhan o'ch prentisiaeth ac rydych chi'n mewn cyfarfod. Mae'ch cyd-weithwyr yn siarad ar draws ei gilydd. Dydy rhai ohonyn nhw ddim yn siarad yn eglur iawn ac felly mae'n anodd eu clywed nhw. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 4

Ar ddechrau'r brentisiaeth mae'n rhaid i chi wylio fideo am reolau iechyd a diogelwch yn y swyddfa – does dim is-deitlau ar y fideo ac mae'n rhaid i chi wneud prawf bach ar y diwedd i ddangos eich bod chi wedi deall y fideo. Beth ydych chi'n ei wneud?

SEFYLLFAOEDD PRIFYSGOL

Sefyllfa 1

Rydych chi'n mewn darlith ac mae'r tiwtor yn dangos cyflwyniad PowerPoint. Dydych chi ddim yn gallu clywed yr hyn mae'n ei ddweud ac wedi drysu ynglŷn â'r hyn mae'n siarad amdano. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 2

Mae'r ddarlith yn dechrau ac mae yna berson tal iawn yn eistedd o'ch blaen chi Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 3

Mae'r darlithydd yn dangos fideo ond does dim is-deitlau. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 4

Mae'r Cynghorydd Anabledd yn eich prifysgol wedi dweud wrthoch chi fod dim hawl gennych chi i unrhyw gymorth. Beth ydych chi'n ei wneud? Pa fath o help gallwch chi gael gyda'r sefyllfa hon?

SEFYLLFAOEDD CYFLOGAETH

Sefyllfa 1

Rydych chi'n mynd i gyfarfod yn y gwaith ac wedi trefnu dehonglydd o flaen llaw. Ond, ychydig cyn i'r cyfarfod ddechrau, mae'r dehonglydd yn canslo. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 2

Mae gennych chi reolwr newydd sydd ddim yn deall unrhyw beth am fyddardod nac am eich anghenion neu'r cymorth y mae gennych chi'r hawl iddo. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 3

Rydych chi wedi derbyn gwahoddiad i gynhadledd fel rhan o'ch swydd – bydd y digwyddiad yn un eithaf mawr gyda lot o wahanol siaradwyr a chyflwyniadau PowerPoint trwy gydol y dydd. Beth ydych chi'n ei wneud?

Sefyllfa 4

Mae cyd-weithiwr (sydd ddim yn eich adnabod chi'n dda iawn) wedi eich gwahodd i gyfarfod sy'n para am dair awr ar fyr rybudd, a dydyn nhw ddim wedi anfon agenda gyda'r gwahoddiad. Beth ydych chi'n ei wneud?

ADNODD 8.1
CYNLLUN GWEITHREDU GYRFA

BETH SY' NESAF?

Dyma'ch cynllun gweithredu – gallwch chi ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer eich golau gyrfa. Gall meddwl am y camau gwahanol mae'n rhaid i chi eu cymryd a chynllunio o flaen llaw wir helpu gyda'ch dewisiadau – **BAROD, SET, EWCH!**

BAROD

A

Mae'r adran hon amdanoch chi.
Ble rydw i nawr?
Beth ydw i'n mwynhau gwneud?
Pa bethau ydw i'n eu gwneud yn dda?
Sut ydw i'n cyfathrebu?

SET

B

Pa ddewisiadau mae'n rhaid i mi eu gwneud er mwyn cwrdd â fy ngôl?

C

Pa gymwysterau neu brofiad bydd angen arnaf i er mwyn cwrdd â fy ngôl?

D

Pa bethau mae'n rhaid i mi fod yn gyfrifol amdanyn nhw fy hunan?

E

Pa help bydd angen arnaf i?

EWCH

F

Fy ngôl!
Beth ydw i eisiau ei wneud?

G

Yr addewid!
Pa dri pheth ydw i'n mynd i'w gwneud heddiw i ddechrau symud tuag at fy ngôl?

GALLWCH CHI WNEUD HYN → **RYDYCH CHI WEDI LLWYDDO!**

Darperir yr adnodd hwn ar Drwydded Llywodraeth Agored sy'n galluogi unrhyw un i gopïo, cyhoeddi, dosbarthu, trosglwyddo ac addasu'r gwaith trwyddedig, ac i'w defnyddio yn fasnachol ac yn anfasnachol. Yn gyfnewid am hyn, bydd rhaid i ail-ddefnyddiwr y cyhoeddiad hwn gydnabod Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar fel ffynhonnell y gwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: DYDDIAD 2020

We are the National Deaf Children's Society, the leading charity for deaf children.

National Deaf Children's Society
Ground Floor South, Castle House
37–45 Paul Street, London EC2A 4LS

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779. A0163e

National Deaf Children's Society
CYMRU